# Adnewyddu swyddfeydd

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

29 Hydref 2015

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 13 Hydref, lle gofynnoch:

*Hoffwn ofyn beth oedd y gost o adnewyddu swyddfa grŵp Plaid Cymru ar yr ail lawr yn Nhŷ Hywel.*
*A fyddech cystal â nodi:*
*a) cyfanswm y costau, a*
*b) dadansoddiad manwl o'r costau, gan gynnwys y gost o osod muriau gwydr.*
*c) Ynghyd ag unrhyw wariant TG sy'n gysylltiedig â'r gwaith.*

Mae'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani i'w gweld isod:

| Gwaith | Cost |
|---|---|
| Gwaith ar yr adeilad a'r adeiledd | £13,380 |
| Dodrefn a ffitiadau (gan gynnwys 12 desg, dodrefn cyfarfodydd a mannau storio yn y swyddfa) | £54,430 |
| Mecanyddol a thrydanol | £9,260 |
| Muriau gwydr (cyflenwi a gosod) | £11,212 |
| **Cyfanswm y costau** | **£88,282** |

Nid oedd unrhyw wariant TG yn gysylltiedig â'r gwaith.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 89 8635
E-bost/Email: Buddug.Saer@cynulliad.cymru

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

**Buddug Saer**
**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF